Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**
—
Welsh Parliament
**Finance Committee**

Rebecca Evans AS

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

13 Ionawr 2023

Annwyl Rebecca,

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Banc Seilwaith y DU

Fel y gwyddoch, gosododd y Pwyllgor Cyllid ei adroddiad ar y ddau Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ('LCMs') cyntaf sy'n ymwneud â Bil Banc Seilwaith y DU ('y Bil') ar 11 Hydref 2022. Daethom i'r casgliad ar y pryd nad oedd yn bosibl rhoi barn ynghylch a ddylid argymell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad i'r Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol oherwydd nad oedd manylion penodol am y gwelliannau a geisiwyd gennych ar strwythurau llywodraethu a chylch gwaith a chyfeiriad strategol y Banc yn hysbys eto.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) diweddaraf ar y Bil, a osodwyd gerbron y Senedd ar 30 Tachwedd, yn ei gyfarfod ar 12 Ionawr.

Mae'r Pwyllgor yn nodi barn Llywodraeth Cymru ar y Bil, fel y nodir ym mharagraffau 46 i 50 o'r Memorandwm, ac mae'n croesawu'r manylion ychwanegol a ddarparwyd ar y gwelliannau a wnaed, yn unol ag argymhelliad 2 yn ein hadroddiad. Mae hyn, yn ddefnyddiol, yn adeiladu ar y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn eich ymateb i'n hadroddiad ar 17 Tachwedd.

Rydym wedi ein sicrhau gan y wybodaeth a ddarparwyd, a chytunwn fod y Bil wedi'i ddiwygio i adlewyrchu'r setliad datganoli yn well. O ganlyniad, nid ydym am godi unrhyw faterion adrodd eraill, yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau pellach a gaiff eu gwneud i'r Bil.

Yn gywir

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.